



## Pensiynau i Gynghorwyr yng Nghymru

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ar gael i holl gynghorwyr cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru y cynigir aelodaeth o'r Cynllun iddynt o dan gynllun lwfansau eu cyngor ac sydd o dan 75 oed.

Mae'r daflen hon yn rhoi amlinelliad byr i chi o brif fuddion y Cynllun ac yn egluro'r hyn rydych yn ei dalu i mewn a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn gyfnewid.

Mae'r CPLIL yn gynllun diogel oherwydd bod y buddion wedi'u gwarantu gan y gyfraith. Mae'r buddion a gewch pan fyddwch yn ymddeol yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd y buoch yn aelod o'r Cynllun a'ch cyflog cyfartalog fel cynghorydd. Nid yw eich buddion yn dibynnu ar brisiau cyfranddaliadau ac nid yw amrywiadau yn y farchnad stoc yn effeithio arnynt.

### Sut mae ymuno â'r CPLIL?

Chi fydd yn penderfynu a ydych am ymuno â'r Cynllun, er bod yn rhaid i chi fod o dan 75 oed. Er mwyn sicrhau eich hawl i fudd-daliadau'r Cynllun mae'n bwysig eich bod yn llenwi ac yn dychwelyd ffurflen ymuno. Ar ôl derbyn eich ffurflen, bydd cofnod pensiwn perthnasol yn cael ei sefydlu a bydd hysbysiad swyddogol o'ch aelodaeth o'r Cynllun yn cael ei anfon atoch.

### A allaf ymuno os wyf eisoes yn talu i mewn i bensiwn arall?

Gallwch - gallwch dalu i mewn i gymaint o wahanol gynlluniau pensiwn ag y dymunwch. Gallwch dalu hyd at 100% o'ch enillion trethadwy yn y DU mewn unrhyw un flwyddyn dreth i mewn i unrhyw nifer o drefniadau pensiwn o'ch dewis (neu, os yw'n fwy, £3,600 i drefniant 'gostyngiad treth wrth y ffynhonnell', megis pensiwn personol neu gynllun pensiwn cyfranddeiliaid) a bod yn gymwys i gael rhyddhad treth.

### Beth ydw i'n ei dalu?

Ar hyn o bryd rydych yn talu 6% o'ch lwfansau sylfaenol a chyfrifoldeb fel cynghorydd i'r CPLIL. Nid ydych yn talu cyfraniadau ar unrhyw lwfans gofalwr dibynyddion, lwfans teithio a chynhaliaeth na lwfans cyfetholedig. Os ydych yn talu treth, byddwch yn cael gostyngiad treth ar eich cyfraniadau pan gânt eu tynnu o'ch lwfansau. Mae cyfyngiadau ar faint o ryddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os bydd gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu mewn unrhyw flwyddyn yn fwy na'r lwfans blynyddol efallai y bydd yn rhaid i chi dalu tâl treth. Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y rhan fwyaf o bobl. Eich cyngor sy'n talu gweddill y gost o ddarparu eich buddion CPLIL, sy'n costio tua dwbl y swm a dalwch i'r cyngor.

## Beth yw'r manteision?

**Yswiriant bywyd** o'r eiliad y byddwch yn ymuno, gyda chyfandaliad o ddwywaith eich cyflog cyfartalog gyrfa yn cael ei dalu os byddwch yn marw mewn gwasanaeth o dan 75 oed.

**Sicrwydd ar gyfer eich teulu** gyda phensiwn ar gyfer eich priod neu bartner sifil<sup>1</sup> ac ar gyfer plant cymwys petaech yn marw.

### Buddiannau ymddeol ar ôl tri mis o aelodaeth:

Gallwch ymddeol o'ch swydd a chymryd eich pensiwn o 55 oed, er mai 65 oed yw oedran pensiwn arferol y Cynllun. Bydd buddion a dalwyd cyn 65 oed fel arfer yn cael eu talu ar gyfradd ostyngol. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yr oedran cynharaf y gallwch gymryd eich pensiwn yn cynyddu i 57 oed o fis Ebrill 2028. Nid yw'r rheoliadau CPLIL wedi'u diwygio eto i adlewyrchu'r newid hwn.

**Mae buddion uniongyrchol** yn daladwy ar unrhyw oedran os oes rhaid i chi ymddeol oherwydd salwch parhaol.

**Pan fyddwch yn ymddeol** gallwch edrych ymlaen at:

- Lwmp swm di-dreth, a
- pensiwn taladwy am oes sy'n cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r mynegai costau byw priodol.

## Sut mae buddion yn cael eu gweithio allan?

Mae eich pensiwn CPLIL pan fyddwch yn ymddeol yn cael ei gyfrifo fel 1/80fed o gyflog cyfartalog eich gyrfa am bob blwyddyn o aelodaeth o'r CPLIL:

---

Pensiwn blynyddol = Aelodaeth o'r CPLIL ÷ 80 × cyflog cyfartalog gyrfa

Hefyd, byddwch yn cael lwmp swm o dair gwaith y swm hwnnw:

Lwmp Swm = 3 × Pensiwn blynyddol

---

Gallwch, os dymunwch, ildio rhywfaint o'r pensiwn i gael lwmp swm mwy pan fyddwch yn cymryd eich buddion. Gallwch gymryd hyd at 25% o werth cyfalaf eich buddion pensiwn fel lwmp swm. Byddwch yn derbyn £12 o gyfandaliad am bob £1 o bensiwn blynyddol a ildwyd.

Fel arfer telir y lwmp swm yn ddi-dreth. Fodd bynnag, mae terfyn ar faint o arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o gynlluniau pensiwn y DU. Y terfyn yw £268, 275 a chaiff ei adnabod fel y lwfans lwmp swm. Os ydych eisoed wedi cymryd taliad pensiwn, efallai eich bod wedi defnyddio rhywfaint o'ch lwfans lwmp swm. Gall terfyn uwch fod yn berthnasol os oes gennych amddiffyniad lwfans oes.

---

<sup>1</sup> Mae partneriaeth sifil yn berthynas rhwng dau berson o'r un rhyw neu'r rhyw arall ('partneriaid sifil') a ffurfir pan fyddant yn cofrestru fel partneriaid sifil i'w gilydd.

## Beth yw cyflog cyfartalog gyrfa?

Mae cyflog cyfartalog eich gyrfa yn seiliedig ar:

- eich lwfansau<sup>2</sup> fel cynghorydd ar gyfer pob blwyddyn neu ran o flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth
- heblaw am eich cyflog blwyddyn olaf, caiff y rhain eu haddasu gan y newid mewn costau byw, fel y'i mesurir gan y mynegeion priodol, rhwng diwedd y flwyddyn berthnasol a diwedd y mis y byddwch yn gadael y Cynllun.
- yna rhennir cyfanswm y tâl wedi'i ailbrisio bob blwyddyn â chyfanswm y blynnyddoedd a'r rhan o flynyddoedd y buoch yn aelod o'r CPLIL i gyrraedd eich cyflog cyfartalog gyrfa. Defnyddir hwn wrth gyfrifo eich buddion CPLIL.

## A allaf drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLIL?

Ni allwch drosglwyddo hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLIL o gynllun pensiwn arall, cynllun pensiwn personol, awdurdod gweinyddu CPLIL arall neu o aelodaeth CPLIL fel cyflogai. Os oes gennych chi hawliau pensiwn CPLIL o gyfnod blaenorol o aelodaeth cynghorydd yn yr un awdurdod gweinyddu CPLIL, gallwch ymuno â nhw i'ch aelodaeth bresennol fel cynghorydd. Rhaid gwneud hyn o fewn 12 mis i ail-ymuno â'r Cynllun, neu'n hirach os yw'ch cyngor yn caniatáu hynny.

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn gadael cyn ymddeol?

Os oes gennych o leiaf dri mis o aelodaeth a'ch bod yn gadael cyn bod â hawl i daliad uniongyrchol o'ch buddion, cânt eu gohirio i'w talu, fel arfer tan 65 oed.

Efallai y gallwch drosglwyddo eich buddion CPLIL i gynllun pensiwn arall. Ni allwch eu trosglwyddo i awdurdod gweinyddu CPLIL arall yng Nghymru nac ymuno ag ef i unrhyw aelodaeth o'r CPLIL yr ydych yn ei gronni fel cyflogai yng Nghymru neu Loegr.

Os oes gennych lai na thri mis o aelodaeth efallai y byddwch yn gallu hawlio dychweliad cyfraniadau, llai treth.

## A allaf dalu mwy i wella fy muddiannau pensiwn?

Gallwch gynyddu eich buddion drwy wneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY). Gallwch hefyd dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn cyfranddeiliaid.

---

<sup>2</sup> Dyma eich lwfans sylfaenol a lwfans cyfrifoldeb arbennig. Nid yw'n cynnwys unrhyw lwfans gofalwr dibynyddion, lwfans teithio a chynhaliadaeth na lwfans cyfetholedig.

## Sut mae ymuno â'r CPLIL?

Os ydych o dan 75 oed ac yn dymuno ymuno â'r CPLIL:

Cwblhewch y ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd i'r Adran Bensiynau, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Os dewiswch ymuno â'r Cynllun, dylech wirio'ch slip cyflog i sicrhau bod cyfraniadau pensiwn yn cael eu casglu o'ch lwfansau.

## Eisiau gwybod mwy?

Mae'r daflen hon yn rhoi amlinelliad byr o'r CPLIL. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ar dudalen pensiynau cynghorydd gwefan aelodau CPLIL, lle gallwch weld copi o ganllaw llawn y Cynllun.

## Ymwadiad

Mae'r daflen hon ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu darpariaethau'r CPLIL a'r ddeddfwriaeth or-redol ar adeg ei chyhoeddi. Gall y Llywodraeth wneud newidiadau i ddeddfwriaeth or-redol ac, ar ôl ymgynghori â phartïon â diddordeb, gall wneud newidiadau yn y dyfodol i'r CPLIL.

Mae'r daflen hon yn ganllaw byr i'r CPLIL ar gyfer cynghorwyr yng Nghymru ac ni all gwmpasu pob amgylchiad personol. Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch eich buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Nid yw'r daflen hon yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol na statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.